Tydi sy deilwng oll o'm cân

Caneuon Ffydd: Rhif 64

Tydi sy deilwng oll o'm cân,
fy Nghrëwr mawr a'm Duw;
dy ddoniau di o'm hamgylch maent
bob awr yr wyf yn byw.

Mi glywa'r haul a'r lloer a'r sêr
yn datgan dwyfol glod;
tywynnu'n ddisglair yr wyt ti
drwy bopeth sydd yn bod.

O na foed tafod dan y rhod
yn ddistaw am dy waith;
minnau fynegaf hyd fy medd
dy holl ddaioni maith.

Diolchaf am dy gariad cu
yn estyn hyd fy oes;
diolchaf fwy am Un a fu
yn gwaedu ar y groes.

Diolchaf am gysuron gwiw
wyf heddiw'n eu mwynhau;
diolchaf fwy am ddoniau sy'n
oes oesoedd i barhau.

DAVID CHARLES, 1803 – 80

MYFYRDOD

Fe boenodd athronwyr a diwinyddion dros y cwestiwn 'A oes yna Dduw?' ers canrifoedd maith. Dywed rhai y dylai fod prawf pendant i'w fodolaeth, rhywbeth cyffyrddadwy a gweladwy, fel y prawf pendant hwnnw a gafodd Thomas o atgyfodiad Iesu pan ymddangosodd eilwaith i'w ddisgyblion.

Rhai ynfyd neu ffyliaid yw'r rhai sy'n dweud '"Nid oes Duw"', yn ôl y Salmydd (53:1). Os nad oes yna Dduw, yna sut mae mynd ati i esbonio'n bodolaeth a'r byd o'n cwmpas? Beth am ryfeddod, manylder, harddwch a chymhlethdod y greadigaeth? Mae hi'n cymryd llawer mwy o ffydd yn y siawns sy'n troi dim yn rhywbeth ac yn greadigaeth gyfan nag yw hi mewn gwirionedd i resymol gredu bod creawdwr ar waith y tu cefn i'r cyfan.

Duw ar waith yn ei greadigaeth ac yn ei ddatguddio'i hun i ni sydd y tu cefn i'r ddau bennill cyntaf o emyn David Charles yr Ieuengaf.

Pan ddown ni wyneb yn wyneb â phrydferthwch o unrhyw

fath, ein hymateb yw un o edmygedd a rhyfeddod at allu'r un a roddodd fod iddo. Boed hynny yn waith dyn yn creu darlun, yn llunio darn persain o gerddoriaeth neu gampwaith pensaernïol, neu wrth edrych ar ryfeddod byd natur a'r greadigaeth o'n cwmpas. 'Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylo ef' oedd ymateb Dafydd i harddwch y greadigaeth (Salm 19:1 BWM).

Dywed Paul fod y datguddiad hwn o briodoleddau Duw yn y greadigaeth, sef ei ddaioni a'i allu a'i dduwdod wrth gwrs mor boenus o eglur fel ein bod ni'n gwbl ddiesgus os na dderbyniwn ni nhw fel tystiolaeth i'w fodolaeth: 'Oherwydd y mae'r hyn y gellir ei wybod am Dduw yn amlwg iddynt, a Duw sydd wedi ei amlygu iddynt. Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny, y maent yn ddiesgus' (Rhuf. 1:19–20).

Ond mae gan Dduw fwy eto i'w ddweud wrthym ni amdano'i hun, a dyna yw testun diolch pennaf David Charles amdano:

> Diolchaf fwy am Un a fu
> yn gwaedu ar y groes.

Dyma'r datguddiad sy'n fwy na'r datguddiad cyffredinol ym myd natur ac sy'n abl i roi inni wybodaeth o Dduw a'i ewyllys a all ein dwyn i berthynas iawn â'n Crëwr. Trwy ei Air, sef y Beibl, a'i Air a ddaeth yn gnawd, sef Iesu Grist, mae Duw wedi datguddio inni bopeth sydd ei angen arnom er ein hiachawdwriaeth ac i'n dwyn i berthynas ag ef ei hun, gan roi inni 'ddoniau sy'n oes oesoedd i barhau'.

GWEDDI

Diolchaf iti, Arglwydd, mai ti yw fy Nghrëwr mawr a'm Duw, ac iti wneud popeth sy'n bosibl er mwyn imi weld a deall hynny. Pâr fy mod innau hefyd, fel dy greadigaeth a'th Air, yn mynegi 'dy holl ddaioni maith'. Yn enw Iesu'r datguddiad pennaf ac olaf. Amen.